

Amodau a Thelerau ar gyfer Gosod a Chynnal-a-chadw Cydosodiadau Falf Parth Pwysedd Is (RPZ)

Mae'r amodau a'r telerau canlynol yn berthnasol i osod unrhyw ddyfeisiau atal adlif Math BA (Ataliwr Adlif Gwiriadwy â Pharth Pwysedd Is), a elwir yn gyffredin yn falfiau RPZ, wrth osod ffitiadau dŵr sy'n cludo dŵr sy'n cael ei gyflenwi gan Ddŵr Cymru.

Gall methu â chydymffurfio â'r telerau hyn arwain at erlyniad am dorri amodau Rheoliadau Cyflenwi Dŵr (Ffitiadau Dŵr) 1999 a/neu'r adrannau perthnasol o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991.

Hysbysu, gosod a chomisiynu

1. Cyn gosod y ffitiadau hyn rhaid cael caniatâd ysgrifenedig gan Ddŵr Cymru ymlaen llaw. Ym mhob achos, bydd y cwsmer yn gofyn am ganiatâd gan ddefnyddio [ffurflen hysbysu](#).
2. Rhaid i Falfiau RPZ gael eu gosod, eu comisiynu, eu profi a'u cynnal yn unol â gofynion argraffiad cyfredol **Approved Installation Method - AIM-08-01** Water Regs UK. Rhaid i'r gwaith gosod yma gydymffurfio â'r *Rheoliadau Cyflenwi Dŵr (Ffitiadau Dŵr) 1999*. Rhaid cymhwyso gofynion yr AIM a'r Rheoliadau yn ogystal â'r telerau hyn.
3. Rhaid i falfiau RPZ a ffitiadau sy'n gysylltiedig â'u gosod ddod gyda thystiolaeth gyfredol a dilys o gydymffurfiaeth â Rheoliad 4 o Reoliadau Cyflenwi Dŵr (Ffitiadau Dŵr) 1999. Bydd Dŵr Cymru'n gofyn am dystiolaeth o gydymffurfiaeth y cynnyrch cyn y gellir rhoi caniatâd i'w osod. *Un esiampl o dystiolaeth ddigonol fyddai ardystiad cyfredol a dilys o ganiatâd.*
4. Gall Dŵr Cymru orfodi amodau pellach ar osod y ffitiadau hyn fel y gwêl yn briodol wrth roi caniatâd ar gyfer y gwaith arfaethedig.
5. Ar ôl gosod y falf RPZ, rhaid iddi gael ei chomisiynu a'i phrofi gan brofwr achrededig, fel y rhai sydd ar gofrestr [WaterSafe](#). **Rhaid cyflawni hyn cyn y gellir dechrau defnyddio unrhyw falf.**
6. Dim ond ar ôl diwallu'r Amodau a'r Telerau hyn y caniateir Gosod falf RPZ. Os na fodlonir yr Amodau a'r Telerau hyn, gall Dŵr Cymru fynnu eich bod chi'n tynnu cydosodiad y falf RPZ a darparu amddiffyniad priodol arall rhag adlif.

Cynnal-a-chadw a phrofi cydymffurfiaeth.

7. Rhaid i'r cwsmer gynnal-a-chadw'r falfiau RPZ a'r ffitiadau cysylltiedig yn unol ag argymhellion y gwneuthurwr. Ar ei ddisgresiwn ei hun, gall Dŵr Cymru orfodi amodau eraill mewn perthynas â chynnal-a-chadw unrhyw falf RPZ.
8. Rhaid i'r cwsmer weithredu rhaglen archwilio a chynnal-a-chadw sy'n sicrhau bod y falfiau RPZ yn cael eu profi'n gyfnodol yn unol â gofynion y gwneuthurwr, neu o leiaf bob 12 mis – p'run bynnag sydd fyrraf. Gall Dŵr Cymru orfodi'r gofyniad i gyflawni gwaith archwilio a chynnal-a-chadw ar gyfnodau byrrach lle teimlir bod hynny'n angenrheidiol.
9. Rhaid i'r cwsmer gadw tystysgrifau adroddiad y profion ynghyd ag unrhyw ddogfennau eraill sy'n ymwneud â gosod a chynnal y falf RPZ. Caiff y rhain eu storio fel y gellir eu cyrchu'n

rhwydd er mwyn i Ddŵr Cymru eu gweld. Gallwn ofyn i chi ddarparu'r wybodaeth yma yn ystod archwiliad neu adolygiad.

10. Gall Dŵr Cymru fynnu bod profion ychwanegol yn cael eu cyflawni ar falfiau RPZ gweithredol unrhyw bryd, a gall bennu bod profion gweithredol yn cael eu cyflawni'n fwy cyson na'r hyn a bennir yn yr AIM lle ystyrir bod hynny'n briodol.
11. Gellir cyflawni profion ar gydymffurfiaeth falf RPZ hyd at uchafswm o 30 diwrnod cyn dyddiad y prawf gofynnol nesaf heb i hynny effeithio ar y dyddiad ailbrofi nesaf.
12. Rhaid i brofion cydymffurfiaeth ar falfiau RPZ gael eu cyflawni ar gost y cwmni, a hynny gan brofwr achrededig. Bydd y cwsmer yn arddangos hysbysiad mewn man amlwg yn agos at y gosodiad er mwyn hysbysu'r bobl sydd gerllaw y dylid riportio unrhyw broblemau gyda'r gosodiad ar unwaith, a law personél awdurdodedig â'r hyfforddiant addas yn unig gaiff gyflawni gwaith cynnal-a-chadw arno.
13. Ni chaniateir gwneud newidiadau i berchnogaeth, na diwygiadau i osodiadau plymio sy'n cynnwys falf RPZ heb gael caniatâd ysgrifenedig Dŵr Cymru. Dylid hysbysu am y newidiadau arfaethedig ymlaen llaw gan ddefnyddio ein [ffurflen hysbysu](#).
14. Lle nad oes angen y falf RPZ mwyach, bydd y cwsmer yn parhau i'w chynnal a'i phrofi. Fel arall, dylid gofyn am ganiatâd Dŵr Cymru i dynnu'r falf.
15. Bydd y Cwsmer yn caniatáu i unrhyw un o weithwyr neu asiantau awdurdodedig Dŵr Cymru i fynd i'r eiddo ar unrhyw adeg resymol at ddibenion sy'n ymwneud â'r telerau hyn. Mae hyn yn ogystal â hawl mynediad statudol Dŵr Cymru.

Methu profion, trwsio a disodli.

16. Os ceir bod unrhyw falf RPZ yn ddiffygiol wrth ei chomisiynu neu trwy brawf cydymffurfiaeth, rhaid hysbysu Dŵr Cymru cyn gynted ag y bo'n ymarferol, a chyn pen 24 awr bob tro. Rhaid riportio'r rhesymau dros fethu ynghyd ag unrhyw gamau a gymerwyd. Lle na ellir trwsio neu ddisodli falf ddiffygiol ar unwaith, **rhaid hysbysu Dŵr Cymru ar unwaith**.
17. Rhaid ynysu falfiau RPZ sydd wedi methu'r profion nes i Ddŵr Cymru eich hysbysu fel arall. Gall Dŵr Cymru fynnu bod camau unioni eraill yn cael eu cymryd yn dilyn methiant lle na ellir cyflawni gwaith trwsio neu ddisodli.
18. Rhaid i gydrannau newydd a ddefnyddir wrth drwsio falf RPZ gydymffurfio â manylebau'r gweithgynhyrchwr ar gyfer model y falf a osodwyd. Ar ôl disodli neu drwsio cydrannau, rhaid ail-gomisiynu'r falf a rhaid iddi gael ei phrofi gan brofwr achrededig cyn ei defnyddio eto.

Mae Dŵr Cymru'n cadw'r hawl i ddiwygio'r Amodau a Thelerau fel y bo angen o bryd i'w gilydd yn unol â'r newidiadau i'r ddeddfwriaeth neu ganllawiau'r diwydiant. Caiff newidiadau eu cyfleu i'n cwsmeriaid adeg eu gweithredu.